

## **ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD (ARhPh) YSGOL BOTWNNOG**

Cred y Corff Llywodraethol fod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh) effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau cyfrifol a chytbwys am eu bywydau ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hybu iechyd rhywiol.

Diffinir rhaglenni addysg rhyw effeithiol fel rhai sy'n:

- Darparu addysg ryw yn ddigon buan;
- Yn defnyddio dulliau dysgu lle mae disgyblion yn cyfrannu;
- Yn cynnig gweithgareddau sy'n trafod dylanwad cyfoedion a'r cyfryngau;
- Yn cyflwyno rhaglenni integredig gyda'r nod o atal beichiogrwydd, cynyddu'r defnydd o ddulliau atal cenhedlu ac atal HIV / AIDS ac afiechydon rhywiol eraill;
- Yn gwneud defnydd o wasanaethau iechyd rhywiol ac asiantaethau eraill ac yn manteisio ar gyswllt gyda nyrsys ysgol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Wrth lunio'r polisi hwn cymerwyd ystyriaeth o gylchlythyr 11/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru '*Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion*' sy'n darparu canllaw ar y gofynion statudol ac mae'r *Fframwaith ABCh* a gofynion y *Cwricwlwm Cenedlaethol Gwyddoniaeth* yn cynnig arweiniad cadarn am ddeilliannau dysgu disgwylidig Addysg Rhyw o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau ac agweddau a gwerthoedd.

### **Nodau**

- Helpu a chefnogi pobl ifanc trwy eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol.
- Galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau synhwyrol a gwybodus yn ystod eu bywydau.
- Helpu pobl ifanc i barchu eu hunain ac eraill ac i symud yn hyderus o blentyndod trwy lencyndod i fod yn oedolion.
- Paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn.
- Galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r agweddau, gwerthoedd a sgiliau a all ddylanwadu ar y modd y maent yn ymddwyn.

### **Amcanion**

(Yn ychwanegol at yr amcanion a nodir yn y datganiad ABCh).

- Helpu disgyblion i ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i fyw bywydau hyderus, iach ac annibynnol.
- Helpu disgyblion i ymdrin â chwestiynau moesol a chymdeithasol anodd.
- Datblygu sgiliau disgyblion i ofyn am help cefnogaeth a chyngor.
- Dysgu disgyblion am nature ac arwyddocâd priodas a phwysigrwydd bywyd teuluol sefydlog er mwyn magu plant.
- Datblygu dealltwriaeth o rywioldeb, helpu pobl ifanc i ohirio cael cyfathrach rywiol a'u hannog i ddefnyddio dulliau atal cenhedlu yn effeithiol.
- Meithrin parch disgyblion at eu hunain ac at eraill a dealltwriaeth o amrywiaeth mewn cymdeithas er mwyn atal a dileu rhagfarn.
- Cyflwynir gwybodaeth yn sensitif a diduedd heb ragfarn mewn awyrgylch lle mae trafodaeth agored yn digwydd ond ni fydd cwestiynau personol yn cael eu gofyn na'u hateb.
- Dysgu gofal ac ystyriaeth at eraill a body n sensitif tuag at eu teimladau.

- Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion a dylanwadau eraill.
- Cynnig gwybodaeth gynhwysfawr a thrafodaeth agored fel y gall y disgyblion wneud penderfyniadau cytbwys ac ystyriol.
- Datblygu dealltwriaeth disgyblion o gyfrifoldebau a dyletswyddau rhieni.

## **Dull Gweithredu**

- Mae hawl gan rieni i dynnu eu plant o wersi Addysg Rhyw a dylid gwneud hyn trwy lythyr i sylw'r Pennaeth, Mr. Gareth T.M. Jones. Mae ganddynt hefyd hawl i weld copi o'r polisi hwn.
- Cynllunir rhaglen ARhPh gan y Dirprwy Brifathro, Mr. Geraint Hughes a bydd yn cael ei ddarparu i'r disgyblion gan:-
  1. Athrawon profiadol drwy'r rhaglen ABCCh.
  2. Athrawon y Gyfadran Wyddoniaeth sydd yn addysgu agweddau ffeithiol ARhPh yn CA3 a CA4.
  3. Arbenigwyr yn y maes, e.e. gwasanaeth nyrs ysgol fydd yn cynnal gweithdai penodol neu yn cymeryd rhan mewn cynadleddau/gweithdai Addysg Bersonol wedi eu trefnu gan yr ysgol.

Bydd cyngor ar gael i ddisgyblion ar faterion ARhPh gan:-

1. Athrawon yr ysgol.
  2. Athrawon penodol a gofal dros y merched (AJJ); a disgyblion Blwyddyn 7 (IWW).
  3. Nyrs ysgol sy'n ymweld yn wythnosol ar gyfer clinic galw i mewn cyfrinachol.
  4. Gwasanaeth Nyrs Ysgol yng nghlinig Yr Ala, Pwllheli (poster hysbysebu ar gael yn yr ysgol).
- Bydd yr ysgol yn monitro ac arfarnu'r ddarpariaeth ARhPh yn rheolaidd drwy:-
    1. Adborth gan ddarparwyr allanol ac athrawon sy'n cyflwyno'r gwersi.
    2. Holiaduron 'Pawb a'i Farn' sy'n dilyn pob gweithgaredd.
    3. Arweiniad gan y gwasanaeth Nyrs Ysgol.
    4. Barn rhieni a disgyblion.

**G.O.Hughes**  
**Addaswyd Ionawr 2011**